**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol – Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Rhagolygon ar gyfer dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru.**

---

Mae adferiad economaidd a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol Cymru'n flaenoriaethau o bwys i Lywodraeth Cymru ac rydym yn croesawu'n fawr yr adroddiad hwn a'r cyfle i drafod yr hyn yr ydym yn ei wneud i hybu effaith economaidd unigolion a busnesau yn is-sectorau'r cyfryngau yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr adolygiad o'r cyfryngau yng Nghymru yn nhermau anghenion a darpariaeth cenedlaethol, sy'n dod o dan gylch gwaith yr adran Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn ogystal â'r effaith economaidd, y mae'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn bennaf gyfrifol amdani. Rydym yn teimlo bod y dull hwn yn briodol, ac yn adlewyrchu penderfyniadau Gweinidogion i fabwysiadu ymagwedd drawsbynciol at ddatblygiadau polisi a chamau gweithredu.

Yn ein barn ni mae'r prif broblemau y mae is-sectorau'r cyfryngau yng Nghymru'n eu hwynebu'n dod o dan ddau gategori, sef:

i) Nid oes digon o gyfryngau sy'n ymwneud â Chymru. Gallai'r diffyg nifer a phlwraliaeth fod yn berygl i'n strwythurau democrataidd newydd ac mae'n milwrio yn erbyn y perthnasoedd tryloyw ac atebol rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau Cymru a dinasyddion Cymru; ac

ii) Mae'r cyfryngau yng Nghymru'n cael eu rheoli'n bennaf o'r tu allan i Gymru neu'n fater a gadwyd yn ôl o dan reolaeth uniongyrchol llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Yn ein barn ni mae'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan fwyaf, ar y gweill. Mae Llywodraeth Cymru'n creu mesurau i gefnogi datblygu seilwaith yng Nghymru er mwyn cynorthwyo adferiad economaidd. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys datblygu Bang Eang y Genhedlaeth Nesaf; cymorth busnes arbenigol; gwella dulliau caffael y llywodraeth i fusnesau; hyfforddiant a datblygiad effeithiol i bersonél; cymorth ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, yn arbennig yn y cwmnïau hynny nad ydynt yn gallu ei fforddio; a darparu cymorth ariannol effeithiol.

Mae gan Gymru draddodiad hir o gyflenwi cerddoriaeth, teledu, animeiddio a chynnwys creadigol arall yn llwyddiannus ac mae ganddi gryfderau datblygol credadwy ym maes datblygu cynnwys a gwasanaethau digidol a rhaid i'r rhain gael eu diogelu a'u meithrin.

Ein gweledigaeth ar gyfer y sector creadigol yng Nghymru yw y daw'n un o'r mannau gorau yn Ewrop i dyfu busnes creadigol; ac y caiff busnesau creadigol eu hannog i gystadlu a llwyddo mewn marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan gyflenwi twf a ffyniant i drefi, dinasoedd a chymunedau lleol.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n tanlinellu ein hymrwymiad i'r diwydiant darlledu yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi cadw gwasanaethau llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fel cenedl â'i hiaith, diwylliant a sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae cyfryngau cryf yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth i bobl Cymru ac yn eu haddysgu a'u hysbrydoli.

Rydym wedi nodi isod ein hymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

**Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Argymhelliad 1***

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Dylai'r fforwm hwn ddefnyddio arbenigedd o bob rhan o sectorau'r cyfryngau. Dylai ei ddiben fod i edrych i'r dyfodol ac i gynghori ar faterion ar draws pob rhan o'r cyfryngau.

**Ymateb: Gwrthod**

Er nad ydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylid adolygu'r materion hyn yn barhaus. Rydym yn teimlo bod hwn yn gais rhesymol ac nid yn gwbl annisgwyl, gan y bydd y cyfnod i ddod yn gweld newidiadau helaeth i'n tirwedd o ran y cyfryngau; newidiadau a achosir gan rymoedd y farchnad, newid technolegol, newidiadau i ymddygiad defnyddwyr ac ymyriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Wrth ymateb i hyn mae Prif Weinidog Cymru eisoes wedi gofyn i Gadeirydd Panel y Sector Diwydiannau Creadigol gadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen – y Panel Cynghori ar Ddarlledu – i adolygu materion mewn perthynas â darlledu. Rydym yn teimlo y bydd hwn yn gam cyntaf hollbwysig wrth fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor.

Caiff y costau ar gyfer y Panel Cynghori ar Ddarlledu eu talu o'r gyllideb Diwydiannau Creadigol bresennol. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 2***

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg annibynnol i fapio anghenion pobl Cymru o ran y cyfryngau. Dylai'r arolwg hwn lywio polisi ar y cyfryngau ar draws pob sector, gan gynnwys technolegau presennol a rhai sy'n datblygu.

**Ymateb : Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn 2008 comisiynodd Llywodraeth Cymru y Sefydliad Materion Cymreig i gynnal archwiliad o'r

cyfryngau yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r Panel Cynghori ar Ddarlledu ddarparu cyngor ynghylch a ddylid gwneud gwaith tebyg.

**Goblygiadau ariannol** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 3***

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cymryd rhan lawn a rhagweithiol ym mhroses y Bil Cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu anghenion Cymru.

**Ymateb : Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu'n agos â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth i'r Adolygiad Cyfathrebu fynd rhagddo. Bydd hyn yn cynnwys mynychu'r gyfres o seminarau a drefnir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gyhoeddwyd ar 7 Mehefin 2012. Bydd papurau polisi yn rhoi braslun o'r cwestiynau allweddol i bob seminar yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Bydd y seminarau a'r papurau polisi hyn yn cymryd lle'r Papur Gwyrdd cynlluniedig na fydd yn cael ei gyhoeddi. Caiff Papur Gwyn ei gyhoeddi yn gynnar yn 2013 a chaiff Bil Cyfathrebu ei gyflwyno erbyn sesiwn olaf Senedd bresennol y Deyrnas Unedig.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2011 i ymgynghoriad cychwynnol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae wedi parhau mewn cysylltiad â swyddog perthnasol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi hynny.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 4***

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gryfhau'r cysylltiadau ar draws ei hadrannau i sicrhau y gellir cael y budd economaidd a diwylliannol mwyaf o sectorau'r cyfryngau.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio cydgysylltiedig ar draws adrannau'r llywodraeth ar gyfer datblygu polisïau a chamau gweithredu. Rydym ni fel Gweinidogion yn ogystal â'n swyddogion yn cydweithio ar nifer o faterion trawsbynciol perthnasol. Un arwydd o'r ffordd mae'r adrannau treftadaeth a busnes wedi cydweithio oedd ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar yr Adolygiad Cyfathrebu y llynedd. Arweiniodd yr Adran Dreftadaeth ar yr ymateb gyda chyfraniad oddi wrth yr

Adran Fusnes. Bydd y ddwy Adran yn parhau i ymgysylltu'n agos wrth i'r Adolygiad Cyfathrebu fynd rhagddo.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 5***

Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol arolygu'r mater o ddatganoli darlledu yng Nghymru yn barhaus a chynghori Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn, ond yn awgrymu y dylai'r Panel Cynghori ar Ddarlledu adolygu'r mater yn barhaus.

Y sefyllfa bresennol yw nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynnig datganoli unrhyw agwedd ar bolisi darlledu. Ni fyddai'n gwneud synnwyr i ni fel Llywodraeth fod yn gyfrifol am elfennau unigol fel S4C ar wahân i ddarlledu fel maes cyfan.

**Goblygiadau ariannol** – Dim ar hyn o bryd

***Argymhelliad 6***

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocol gyda Llywodraeth y DU ar gyfer ymdrin â materion darlledu nas datganolwyd.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gan Lywodraeth Cymru goncordat eisoes gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n cynnwys yr holl faterion polisi nad ydynt wedi'u datganoli, gan gynnwys darlledu. Byddwn yn adolygu cynnwys y concordat yng ngoleuni'r cyngor a gawn gan y Panel Cynghori ar Ddarlledu.

**Goblygiadau ariannol**

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

*[Materion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw Argymhellion 7-9]*

***Argymhelliad 10***

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ac i Ofcom yn nodi mai darpariaethau presennol trwydded Sianel 3 ddylai fod y gofynion lleiaf ar gyfer adnewyddu'r drwydded.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio'n gyson at bwysigrwydd sicrhau plwraliaeth teledu Saesneg yng Nghymru ym maes newyddion a hefyd ym maes rhaglenni cyffredinol sydd wedi'u hanelu at wylwyr yng Nghymru ar sianel 3. Ni ddylid ystyried gwasanaeth newyddion sianel 3 yn wasanaeth 'newyddion rhanbarthol', ond yn wasanaeth newyddion cenedlaethol democrataidd hanfodol i bobl Cymru. Mae yna ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gadw'r ddarpariaeth bresennol gan ITV o ychydig llai na 4 awr o newyddion yr wythnos, ynghyd ag awr a hanner o ddeunydd arall, gan gynnwys materion cyfoes a sylw at faterion gwleidyddol, a hyn ddylai fod yr amod sylfaenol i adnewyddu trwydded ITV. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig dros hyn yn y cyfnod cyn i drwydded bresennol Sianel 3 ddod i ben ac yng nghyd-destun yr Adolygiad Cyfathrebu.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Mater nad yw wedi'i ddatganoli yw hwn.

***Argymhelliad 11***

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, ar adeg briodol, ar gyfer cyflwyno trwydded Sianel 3 sy'n benodol i Gymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond yn awgrymu y byddai'r Panel Cynghori ar Ddarlledu'n cynghori ar y mater hwn. Nodwn, gyda diddordeb, adroddiad diweddar Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, *'Licensing of Channel 3 and Channel 5'*, a ddywedodd ei fod o'r farn y byddai'n gywir yn awr i wahanu Cymru'n ffurfiol o drwydded ranbarthol Sianel 3 ar gyfer Gorllewin Lloegr.

**Goblygiadau ariannol** – Dim ar yr adeg hon

***Argymhelliad 12***

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd i weithio'n fwy effeithiol gyda Channel 4 i gefnogi cwmnïau Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Channel 4 i archwilio ffyrdd i weithredu'r Alpha Fund yng Nghymru, a fydd yn cefnogi datblygu talent greadigol newydd a thalent greadigol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol** – Caiff y gost i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Alpha Fund ei thalu o'r gyllideb Diwydiannau Creadigol bresennol. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 13***

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effaith y toriadau yn y gyllideb ar y sector cynhyrchu teledu annibynnol yn barhaus a chanfod ffyrdd newydd o ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r sector.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Adolygiad Strategol i effaith Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Ddiwydiannau Creadigol Cymru. Mae'r adolygiad yn tynnu tua'r terfyn a bydd yn canolbwyntio ar arwyddocâd economaidd y darlledwyr i sector y diwydiannau creadigol. Caiff casgliadau ac argymhellion yr adolygiad eu hystyried gan y Panel Cynghori ar Ddarlledu.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 14***

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyrhaeddiad o 97% yng Nghymru cyn y newid i ddigidol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae ein safbwynt ar hyn fel Llywodraeth wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd ac wedi cael ei fynegi'n rheolaidd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i wneud hynny yng nghyd-destun yr Adolygiad Cyfathrebu.

***Argymhelliad 15***

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Radio Cymunedol i gydnabod y cyfraniad mae gorsafoedd radio cymunedol yn ei wneud i'w cymunedau. 2012-13 yw blwyddyn olaf y Gronfa bresennol. Mae adolygiad wedi cael ei gynnal i ganfod a yw'r buddion sy'n deillio o'r Gronfa Radio Cymunedol yn cyfiawnhau parhau â'r Gronfa ar ei ffurf bresennol neu a ddylid newid y drefn grantiau i ddiwallu'n well anghenion gorsafoedd radio cymunedol unigol, y sector, eu cymunedau lleol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol** – Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 16***

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gynnwys dyletswyddau iaith Gymraeg penodol ar gyfer Ofcom yn y Bil Cyfathrebu.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Ar 29 Mai 2012 penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar delerau cynllun iaith Gymraeg Ofcom gan ddefnyddio pwerau o dan adran 14(5) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Gosododd gynllun oedd yn cynnwys mesur am Ofcom yn rhoi ystyriaeth briodol i'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflawni ei swyddogaethau yn ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd.

**Goblygiadau ariannol** – Ddim yn berthnasol

***Argymhelliad 17***

Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer y cyfryngau print yng Nghymru.

**Ymateb: Gwrthod**

Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n credu mai mater i ddiwydiant y cyfryngau yw datblygu modelau busnes cynaliadwy a bod angen i'r Llywodraeth gadw perthynas hyd braich mewn materion yn ymwneud â'r cyfryngau. Fodd bynnag, rydym wedi creu rhai mecanweithiau penodol i gynorthwyo cwmnïau i gystadlu'n llwyddiannus yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r mecanweithiau hyn yn cynnwys Cyllid Busnes Ad-daladwy i helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf, creu swyddi, ymchwil, datblygu ac arloesi, a Chronfa Datblygu Digidol i gynorthwyo busnesau i ddatblygu cynhyrchion digidol masnachol y gellir manteisio arnynt yn y farchnad fyd-eang. Hefyd rydym wedi neilltuo arian i ddatblygu nifer o Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, cynllun cyflogaeth i raddedigion a ddatblygwyd gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg. Mae'r Partneriaethau hyn yn cynorthwyo cwmnïau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ac yn hybu arloesi ac ymchwil a datblygu cydweithredol rhwng busnesau bach a chanolig a'r byd academaidd a phartneriaeth strategol dair blynedd rhwng Llywodraeth Cymru a Nesta (y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau) ar gyfer y fenter "Destination Local" i gyflenwi arian i gefnogi prosiectau cyfryngol "hyperleol". Nod y fenter hon yw symbylu gwasanaethau cyfryngol lleol newydd ledled y Deyrnas Unedig.

***Argymhelliad 18***

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa i ymgysylltu â chwmnïau papur newydd fel y gellir rhoi mesurau ymarferol ar waith os daw'n amlwg y bydd nifer sylweddol o swyddi yn cael eu colli, neu os bydd papurau newydd yn cau.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fel y crybwyllwyd yn yr ymateb blaenorol, mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylid canolbwyntio ar ddiwydiannau'r cyfryngau i ddatblygu modelau busnes mwy cynaliadwy, ac mae wedi creu mecanweithiau i gynorthwyo â hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon ystyried a ellir darparu cymorth cyhoeddus yn achos unrhyw gwmni yng Nghymru sy'n wynebu colli swyddi.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Argymhelliad 19***

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fwrw ymlaen gydag argymhellion adolygiad Hargreaves, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gynnydd yn rheolaidd.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae'r rhan fwyaf o argymhellion Adolygiad Hargreaves wedi cael eu gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud ymlaen ychydig ers Adolygiad Hargreaves a bellach mae'n canolbwyntio ar y cyfeiriad polisi a argymhellir gan Banel presennol y Sector Diwydiannau Creadigol ac a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu datblygu trwy dystiolaeth economaidd gref a chyngor gan Banel y Sector Creadigol.

**Goblygiadau ariannol** – Caiff y costau eu talu o'r gyllideb Diwydiannau Creadigol bresennol. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 20***

Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gyfathrebu pwrpas a rôl ei phanel Sector Diwydiannau Creadigol i randdeiliaid.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n cynllunio nifer o ddigwyddiadau eleni lle rhoddir cyfle i randdeiliaid gyfarfod ag

aelodau'r panel. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru'n dangos, er bod cynhyrchu cyfryngau traddodiadol yn dal yn rhan bwysig o'r darlun economaidd yng Nghymru, bod cyfryngau digidol yn is-sector sy'n tyfu'n gyflym a'u bod angen ymyriad gan y llywodraeth hefyd. Mae sylw newydd Llywodraeth Cymru i gyfryngau digidol yn ogystal â chyfryngau traddodiadol wedi arwain at dranc y Gronfa Eiddo Deallusol a chreu'r Gronfa Datblygu Digidol (oedd hefyd yn un o argymhellion Adolygiad Hargreaves).

**Goblygiadau ariannol** – Caiff y costau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu eu talu o'r gyllideb Diwydiannau Creadigol bresennol. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Argymhelliad 21***

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau addysg uwch, i annog arloesi ac i feithrin modelau busnes newydd.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i hybu cydweithredu rhwng busnesau'r diwydiannau creadigol a'r byd academaidd ac mae wedi neilltuo arian i gynorthwyo â phrosiectau Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth y diwydiannau creadigol. Bydd y Partneriaethau hyn yn helpu cwmnïau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ac yn hybu arloesi ac ymchwil a datblygu cydweithredol rhwng busnesau bach a chanolig a'r byd academaidd.

Mae cytundeb arian grant Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes diweddar wedi trosoli arian oddi wrth Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i greu 'Rhwydwaith Cyfnewidfa Greadigol Cymru'. Bydd hyn yn hybu cydweithio ar draws Prifysgolion Cymru i ysgogi ymchwil a datblygu cydweithredol i'r economi greadigol.

Hefyd, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Arloesi newydd i Gymru. Rydym yn credu, er mwyn cyflymu gweddnewidiad Cymru i economi wybodaeth, ei bod yn bwysicach nag erioed i sefydliadau yng Nghymru gael eu cynorthwyo i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd a choleddu modelau busnes arloesol.

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gynnwys amrywiaeth fawr o randdeiliaid yn y broses gan gynnwys sefydliadau addysg uwch a busnesau. At hynny, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mabwysiadu diffiniad eang o arloesi, gan farnu mai manteisio'n llwyddiannus ar syniadau newydd ydyw, yn y bôn.

**Goblygiadau ariannol** – Caiff y costau ar gyfer Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth y Diwydiannau Creadigol eu talu o dan y gyllideb Diwydiannau

Creadigol bresennol. Caiff unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol eu hystyried ar ôl i'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth a'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Arloesi ddod i law a chael eu hasesu.

***Argymhelliad 22***

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynigion gan Lywodraeth y DU i newid cyfreithiau mewn perthynas â hawliau eiddo deallusol a dylai wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn nodi y dylai unrhyw newidiadau fod yn addas ar gyfer anghenion Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen i gwmnïau yn y sector creadigol ddeall eiddo deallusol ac mae'n ymchwilio i opsiwn Gwasanaeth Cynghori'r Diwydiannau Creadigol i ddarparu cyngor o ansawdd da ar arferion gorau a chyfleoedd yn y maes hwn a meysydd eraill.

**Goblygiadau ariannol** – Caiff y costau ar gyfer Gwasanaeth Cynghori'r Diwydiannau Creadigol eu talu o'r gyllideb Diwydiannau Creadigol bresennol. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***Argymhelliad 23***

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull strategol o ddarparu hyfforddiant, ochr yn ochr â'i bolisïau eraill, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Cymru Ddigidol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae gan Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) Llywodraeth Cymru Fwrdd Rhaglenni TGCh sydd ag is-grŵp addysg a sgiliau TGCh. Ar hyn o bryd mae'r grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan Bennaeth Strategaeth Gweithrediadau Cymru Ddigidol.

Mae'r gwaith o ddatblygu sgiliau yn y sector yn cael ei arwain gan y Cyngor Sgiliau Sector Skillset mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector. Mae Swyddogion o'r AdAS a BETS yn eistedd ar y cyd ar Fwrdd Cyflogwyr Skillset sy'n llywio polisi a strategaeth i'r sefydliad yng Nghymru. Mae Skillset yn darparu hyfforddiant diwydiant cynhwysfawr sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i wybodaeth am y farchnad lafur.

Mae swyddogion AdAS a Skillset wedi cyfarfod â Phanel Sector BETS i drafod yr ymagwedd strategol at sgiliau yn y sector.

Mae mentrau penodol i ddiwallu anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol, megis Prentisiaethau Cyfryngau Digidol, wedi cael eu datblygu gydag arian oddi wrth Lywodraeth Cymru trwy Gangen Polisi a Rhaglenni'r sector yn yr AdAS.

Mae cymorth gyda sgiliau a hyfforddiant busnes gan yr AdAS ar gael i fusnesau cyfryngau digidol yn yr un modd â busnesau eraill yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r sylwadau a nodir yn yr adroddiad mewn perthynas â'r cynnydd cyflym sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf wrth wella mynediad at y ddarpariaeth band eang bresennol trwy'r Cynllun Cymorth Band Eang llwyddiannus, a bod nifer y bobl sy'n defnyddio band eang wedi codi'n gynt yng Nghymru nag yn unrhyw le arall yn y flwyddyn ddiwethaf. Fel mae'r Pwyllgor yn cydnabod, rydym yn parhau â'r cynnydd hwn trwy'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ceisio sicrhau bod pob safle preswyl a phob busnes yng Nghymru yn gallu cael band eang cyflym erbyn 2015. Caiff hyn ei gyflenwi trwy brosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru. Mae'r broses gaffael ar gyfer y prosiect hwn bron iawn wedi dod i ben. Rydym wedi cael y cynnig terfynol ac wedi cau'r broses dendro i nodi cyflenwr i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Byddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi'n ffurfiol yr ymgeisydd buddugol a manylion y datrysiad arfaethedig yn y dyfodol agos. Rydym yn bendant ar y trywydd iawn o hyd i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â band eang y genhedlaeth nesaf erbyn diwedd 2015.

**Goblygiadau ariannol** – Caiff y gost i Lywodraeth Cymru o gyflenwi prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru ei thalu o gyllideb Cyflenwi Seilwaith bresennol yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.
Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.